Addysgu Cymru

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
General Teaching Council for Wales

Cyfnodolyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Gaeaf 2011 | Rhifyn 25

Etholiadau CyngACC 2012

Arfer Gorau: Her Cognio 'Active Kids'

Darlith Addysg Cymru 2011

Annwyl Gyfaill

Nid yn aml y daw cyfle i broffesiwn nodi'r hyn yr hoffai fod mewn gwirionedd ac i'r weledigaeth honno gael ei throi o bosibl yn realiti. Ond dyna'r union gyfle a gaiff athrawon yng Nghymru yn ystod y misoedd nesaf wrth i Lywodraeth Cymru lansio ymgynghoriad ar swyddogaethau CyngACC yn y dyfodol.

Nid wyf yn ymddiheuro am ddefnyddio "y proffesiwn" a "CyngACC" yn gyfnewidiol a hynny am fod y Cyngor yn ymgorffori ac yn nodi gwerthoedd ac etheg addysgu. Yn wir, datblygiad y proffesiwn addysgu yw'r rheswm dros fodolaeth y Cyngor Addysgu, hynny yw ein raison d'être.

Rwy'n eich annog i gyflwyno'ch barn i'r ymgynghoriad. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n clywed yn glir beth yw gweledigaethau athrawon wrth eu gwaith ar gyfer y proffesiwn. Bydd yr erthygl ar dudalennau 13 a 14 o help i chi ymateb.

Yn y tymor hir, nid oes dim yn bwysicach y gallech ei wneud na rhoi'ch sylwadau ar bapur ynghylch gwerth a dyfodol eich proffesiwn. Nid oedd athrawon yn Lloegr yn ddigon ffodus i gael y cyfle hwn - diraddiwyd eu statws hwythau fel gweithwyr proffesiynol gan gamau eu Hysgrifennydd Gwladol, Michael Gove, drwy ddiddymu CyngACLl - gweithred na chawsant hwy na rhanddeiliaid eraill gyfle i ddweud eu dweud yn ei chylch.

Mae'r rhifyn hwn hefyd yn adrodd ar Ddarlith Addysgu Cymru eleni, darlith ragorol a draddodwyd gan Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru. Rwy'n gwybod fod y llu o ymarferwyr a oedd yn bresennol wedi gadael y noson yn llawn ysbrydoliaeth am y gwerth a roddwyd iddynt fel athrawon. Os hoffech glywed yr araith eich hun, mae recordiad sain ohoni ar ein gwefan.

Gyda dymuniadau gorau am egwyl y Nadolig.

Yn gywir iawn,



Angela Jardine
Cadeirydd

Ethol aelodau newydd o blith Aelodau i GyngACC – eich dewis chi ydyw!

Ym mis Chwefror 2012, cynhelir y bleidlais i ddethol aelodau newydd i eistedd ar GyngACC. Gwnewch yn siŵr y cewch ddweud eich dweud wrth benderfynu pwy sy'n cynrychioli eich buddiannau ar eich corff proffesiynol.

Ymgeiswyr – Athrawon Disgyblion Oed Ysgol Gynradd

Ben Cox Athro Dosbarth, Ysgol Emmanuel
John Griffiths Athro Dosbarth, Ysgol Iau Milton
Angela Jardine Athrawes Ddosbarth, Ysgol Gynradd Gabalfa
Cleo Wilson-Sollars Athrawes Ddosbarth, Ysgol Gatholig St Therese
Bernadette Thomas Athrawes Ddosbarth, Ysgol Emmanuel
Margaret Thomas Athrawes Ddosbarth, Ysgol Gynradd Oaklands

Ymgeiswyr – Athrawon Disgyblion Oed Ysgol Uwchradd

Sion Amlyn Pennaeth Ffiseg, Ysgol Eifionydd
Angela Butler Athrawes Gymorth Dyslecsia Arbenigol a Phennaeth Blwyddyn, Ysgol Uwchradd y Drenewydd
Roberto De Benedictis Athro Technoleg, Ysgol Gyfun Llangatwg
Mark Morris Athro Technoleg, Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre
Jane Setchfield Athrawes Gwyddoniaeth, Ysgol Uwchradd Llanedeyrn

Ar ôl derbyn enwebiadau, roedd nifer yr ymgeiswyr yn y categori **Penaethiaid, Dirprwy Benaethiaid a Phenaethiaid Cynorthwyol** yn llai na nifer y lleoedd sydd ar gael ar y Cyngor (sef 2 ymgeisydd ar gyfer y 4 lle sydd ar gael).

Er mwyn llenwi'r 2 le sy'n weddill yn y categori etholiadol hwn, mae dyddiad cau arall wedi'i osod ar gyfer cyflwyno papurau enwebu, sef **30ain Rhagfyr 2011**. Caiff y 2 ymgeisydd a ddychwelodd eu ffurflenni enwebu yn unol â'r dyddiad cau gwreiddiol eu hethol.

Gellir cael pecynnau enwebu gan Alex Lonie yn **Electoral Reform Services Limited (ERS), 33 Clarendon Road, London, N8 0NW. Ffôn: 020 8889 9203 neu drwy e-bost yn alex.lonie@electoralreform.co.uk**

Pleidleisio

Bydd athrawon cofrestredig yn derbyn llythyr yn nodi manylion ynghylch sut i bleidleisio ddiwedd Ionawr 2012. Byddwch yn gallu pleidleisio drwy'r post neu ar y we rhwng **dydd Mawrth 31ain Ionawr 2012** a **dydd Mercher 29ain Chwefror 2012**. Caiff y canlyniadau eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor **ddydd Gwener 9fed Mawrth 2012**.

Unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r Etholiad? Cysylltwch â Hayden Llewellyn, y Swyddog Canlyniadau, ar 029 2046 0099 neu hayden.llewellyn@gtcw.org.uk

Darlith Addysg Cymru 2011

Dysgu drwy lygaid disgyblion

Mae Comisiynydd Plant Cymru, Keith Towler, wedi amau a oes gan ddisgyblion y genedl lais go iawn mewn ysgolion. Bum mlynedd ar ôl cyflwyno cynghorau ysgolion gorfodol yng Nghymru, roedd y Comisiynydd yn herio addysgwyr i ystyried yn fanylach a yw'r system yn gweithio mewn gwirionedd i blant a phobl ifanc.

Daeth sylwadau'r Comisiynydd wrth iddo draddodi Darlith Addysg Cymru, yn yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd ar nos Lun 3 Hydref. Gan annerch cannoedd o athrawon ac addysgwyr eraill, gofynnodd, "Ydyn ni'n gwrando go iawn ar blant a phobl ifanc?"

Dechreuodd Mr Towler wrth ystyried y sefyllfa bresennol yng Nghymru. Meddai, "Mae'n teimlo i mi fel ein bod ni'n sefyll wrth groesffordd. Mae ein hansicrwydd ynghylch i ba gyfeiriad i droi wedi'i ddwysáu gan y canlyniadau PISA diweddaraf, rydyn ni'n gweld rhai o'n hadeiladau ysgol yn dymchwel o flaen ein llygaid, rydyn ni'n wynebu anawsterau cyllid fel na welwyd erioed mo'u tebyg yn y sector cyhoeddus o'r blaen, mae pryderon diogelu plant yn cael eu codi gan ein harolygiaethau ac mae gennym Weinidog Addysg uchel ei gloch yn Leighton Andrews sy'n dymuno gweld camau eithafol yn cael eu cymryd fel y gall plant a phobl ifanc fwynhau manteision addysg o'r radd flaenaf."

Aeth ymlaen i ddweud, "Wrth gamu ymlaen wrth y groesffordd honno yn hyderus bod y cynnydd rydym yn ei wneud gyda'r Cyfnod Sylfaen yn darparu i'n plant y sgiliau y bydd eu hangen arnyn nhw, mae'n rhaid i ni allu cadw parhad fel y gall pob ysgol uwchradd weithio o fewn yr un ymrwymiad i hawliau plant.

"Yn hanfodol i hyn mae ymrwymiad i ymagwedd ysgol gyfan ynghyd â gwrando ac ymateb i leisiau plant a phobl ifanc. Mae'n ganolog i ymdrin â'u hymddieithriad, yn ganolog i ddeall eu hanghenion emosiynol a'u datblygiad cymdeithasol, ac yn ganolog i baratoi pobl ifanc i gymryd cyfrifoldebau pan yn oedolion."

Bu Mr Towler yn cydnabod bod rhai yn honni bod mwy o gyfranogaeth wedi arwain at gynnydd mewn ‘pŵer disgybl’ amhriodol, neu fwy o waith: “Mae’n bosibl bod rhai sy’n meddwl bod fy mhwyslais ar ymgysylltiad disgyblion yn dasg arall i’w hychwanegu at y llu o dasgau eraill y mae gofyn i chi ymgymryd â nhw, fel codi safonau a lefelau cyrhaeddiad. Fodd bynnag, hoffwn bwysleisio bod Estyn wedi adnabod bod rhaid i ymgysylltiad disgyblion a llais y disgybl fod wrth galon addysgu a dysgu effeithiol. Mae’r ffordd hon o weithio’n datblygu hyder disgyblion, yn rhoi hwb i’w hunan-hyder ac yn y pen draw yn gwella’u cyrhaeddiad addysgol.”

Ychwanegodd y byddai ysgolion yn manteisio, hefyd: “Mae ysgolion sydd wedi ymafael yn llwyddiannus â’r cysyniad bod plant yn adolygu’r dysgu sy’n digwydd yn eu hystafelloedd dosbarth yn adrodd eu bod wedi elwa ar bersbectifau’r plant sydd wedi bod yn wahanol i rai’r oedolion. Mewn un ysgol uwchradd dywedwyd wrthyf i fod y plant yn gwneud y cysylltiadau rhwng y meysydd cwricwlaidd ac yn gallu rhoi adborth am anghysondeb mewn ymagweddau addysgu. Mae hyn yn cael ei fwydo nôl i staff sy’n ystyried sut gallan nhw wneud newidiadau er mwyn sicrhau mwy o gysondeb. Mewn un ysgol gynradd roedd plant o bob rhan o’r ystod oedran yn cymryd rhan mewn adolygu’r system wobrwyo ac ymddygiad ac amlygwyd yr anghysondebau eto. Drwy weithio gydag athrawon, arweinwyr ysgol a’r llywodraethwyr, mae’r plant wedi helpu i ddyfeisio system ddiwygiedig sydd wedi cael effaith gadarnhaol yn yr ysgol eleni.”

I gloi, dywedodd y Comisiynydd, “Mae’n sefyllfa lle mae pawb ar ei ennill. Nid yw’n costio ffortiwn. Ond os llwyddwn ni i wneud hyn yn iawn, os gallwn ni ddal gafael yn y gwerthoedd rydym yn eu gosod, ac os ydym ni oedolion yn gwneud hynny’n hyderus, byddwn yn darparu llwyfan i’n plant a’n pobl ifanc ffynnu.”

Mae copïau caled o’r Ddarlith ar gael ar gais gan y Cyngor; gellir lawrlwytho recordiad mp3 oddi ar wefan CyngACC, hefyd, yn: www.gtcw.org.uk

Cynnal safonau proffesiynol o fewn y Proffesiwn Addysgu

Hayden Llewellyn, Dirprwy Brif Weithredwr, CyngACC

Mae gofyn yn ôl y gyfraith i GyngACC ymchwilio i achosion sy’n cynnwys honiadau o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu achos lle mae athro/athrawes wedi cyflawni trosedd berthnasol, ac i achosion gael eu clywed. Mae hon yn rôl bwysig wrth gynnal ymddiriedaeth a hyder rhieni, disgyblion a’r cyhoedd yn gyffredinol yn y proffesiwn addysgu.

Mewn unrhyw flwyddyn benodol, mae nifer yr athrawon sy’n cael eu cyfeirio at GyngACC gan gyflogwyr, yr heddlu neu unrhyw achwynydd unigol i ymchwilio iddynt yn parhau’n fach iawn; dim ond tua 40 neu 50 o 38,000 o athrawon cofrestredig a gyfeirir mewn gwirionedd. Isod rhoddir manylion rhai o’r achosion (dienw) a ystyriwyd gan GyngACC, sydd wedi arwain at orchmynion disgyblu.

Crynodeb o achosion diweddar a glywyd:

Perthynas amhriodol gyda disgybl

Diswyddwyd yr athrawes gofrestredig o’i hysgol yn dilyn perthnasau rhywiol honedig gyda dwy ddisgybl dros 20 mlynedd yn ôl. Roedd yn athrawes yn yr un ysgol ar adeg yr ymddygiad honedig. Cyfaddefodd yr athrawes i un o’r honiadau ond gwadodd y llall.

Canfu’r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol fod un o’r honiadau wedi’i brofi a bod y llall heb ei brofi. Tynnodd y Pwyllgor yr athrawes oddi ar y Gofrestr Athrawon Cymwys drwy gyhoeddi Gorchymyn Gwahardd.

Ymdrin yn amhriodol â disgybl

Cyfeiriwyd yr athro cofrestredig at y Cyngor gan ei gyflogwr am ymdrin yn amhriodol â disgybl.

Canfu’r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol fod ymddygiad yr athro’n annerbyniol, gan atal yr athro rhag bod ar y Gofrestr am flwyddyn. Yn ogystal, gofynnwyd i’r athro ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig gan ymarferydd meddygol cofrestredig ei fod yn gorfforol ac yn feddyliol iach i ddychwelyd i addysgu unwaith i gyfnod yr ataliad ddod i ben.

Euogfarn droseddol am fod â chocên yn ei feddiant

Diswyddwyd yr athro cofrestredig o’i ysgol pan gafwyd ef yn euog gan yr heddlu o fod â chocên yn ei feddiant.

Wrth gyhoeddi Cerydd i’r athro cofrestredig, dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol fod “Disgwyl i athrawon ymddwyn fel modelau rôl. Dylent ymddwyn yn gyfreithlon wrth gyflawni eu dyletswyddau proffesiynol ac yn eu bywyd personol, gan gynnal safonau ymddygiad a ddisgwylir gan athro cofrestredig”. Fodd bynnag, nodwyd hefyd bod yr athro cofrestredig wedi cyfaddef i’r drosedd a ddigwyddodd yn ei amser ei hun, gan ddangos crebwyll go iawn i’w fethiannau ac wedi mynd ar drywydd cwnsela cyffuriau a thalu’r gost ei hun. Roedd ganddo sawl geirda i’w gefnogi ac roedd ei hanes proffesiynol blaenorol yn dda.

Oes gennych ddiddordeb yn y gwrandawiadau sydd ar fin cael eu cynnal neu am gael gwybod beth oedd canlyniad achosion diweddar?

Gallwch ddarllen am y rhain gan ddefnyddio’r ddolen ar dudalen flaen ein gwefan: www.gtcw.org.uk

Angen mwy o athrawon yn aelodau o Bwyllgorau Safonau Proffesiynol

Mae pob Pwyllgor Safonau Proffesiynol CyngACC yn cynnwys cyfuniad o athrawon cofrestredig ac aelodau lleyg. Mae’n hanfodol bod Pwyllgorau’n cynnwys athrawon wrth eu gwaith am y bydd ganddynt ddealltwriaeth ymarferol o’r ymddygiad a’r ymarfer a ddisgwylir gan y rheiny sy’n addysgu plant.

Ar hyn o bryd rydym yn dymuno recriwtio hyd at **10 athro/athrawes gofrestredig ychwanegol** i eistedd ar y Pwyllgorau canlynol:
y Pwyllgor Ymchwilio, y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol,
y Pwyllgor Cymhwysedd Proffesiynol a’r Pwyllgor Addasrwydd i Gofrestru.

Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â’r Cyngor am becyn gwybodaeth ar **029 2046 0099**. Mae gwybodaeth bellach ar gael hefyd yn **www.gtcw.org.uk**
Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener 16eg Rhagfyr 2011.

Mae CyngACC yn darparu hyfforddiant blynyddol llawn. Rydym yn talu costau cyflenwi i’ch ysgol ar gyfer y diwrnodau pan fyddwch yn eistedd ar Bwyllgor, ynghyd â thalu costau teithio rhesymol.

Anogir ceisiadau gan y gweithlu athrawon cofrestredig cyfan, gan gynnwys penaethiaid, aelodau uwch dimau rheoli, athrawon dosbarth ac athrawon peripatetig.

Ewch ati i Goginio!

Mae bwyta'n iach yn y newyddion drwy'r amser. Bu Addysgu Cymru'n siarad ag Amy Bergiers, sy'n athrawes Blwyddyn 4 yn Ysgol Gynradd Nantgaredig, am ei rôl mewn prosiect arloesol i ddatblygu gwybodaeth ynghylch bwyta'n iach a sgiliau coginio.

Roedd cefndir Amy, a raddiodd mewn Microbioleg, a diddordeb personol mewn coginio, yn golygu ei bod yn awyddus i roi'r cyfle i ddisgyblion gymryd rhan mewn prosiectau coginio. Yn broffesiynol, bu'n darganfod bod gweithgareddau o'r fath yn hwyluso cysylltiadau ar draws sawl maes yn y cwricwlwm, gan ddatblygu llawer o sgiliau allweddol ac yn annog gwaith tîm a sgiliau coginio diogel. Ond yn bwysicaf oll, maen nhw'n llawn hwyl!

Un o'r prosiectau mwyaf llwyddiannus mae amy a'i disgyblion wedi cymryd rhan ynddynt yw'r Active Kids Cooking Challenge (AKCC),a gaiff ei redeg gan Sefydliad Maeth Prydain (BNF).

'Rwyf yn meddwl bod bwyta'n iach yn allweddol i les ac iechyd ac agwedd gyffredinol plentyn/oedolyn. Mae llawer o sgiliau coginio wedi'u colli dros y blynyddoedd ac mae bywyd teuluol prysur wedi gorfodi pobl i ddibynnu ar brydiau i'w cludo neu brydiau parod. Roeddwn am ddangos yn syml i'r plant bod coginio'n hwyl.'

Roedd Amy yn hoffi'r adnoddau ansawdd uchel a ddarparwyd gan y BNF oherwydd eu bod yn ategu cynlluniau gwaith ac yn ysbrydoli'r plant. Hefyd roeddent yn targedu llawer o feysydd trawsgwricwlaidd a datblygiad sgiliau ar draws llawer o feysydd allweddol (llythrennedd, rhifedd, TG, datrys problemau, a meddwl). Cyfrannodd y prosiect hefyd at ABCh, Ysgolion Iach, Eco-Ysgolion, Gwyddoniaeth, Dylunio a Thechnoleg.

'Roedd targedu ystod mor helaeth o sgiliau mewn prosiect bywiog a hwyl yn bendant yn werth-chweil. Cafodd y plant hwyl yn dysgu ac archwilio. Cawsant eu hysbrydoli hefyd gan y ffaith bod 'cystadleuaeth' i anelu ati. Roedd y cysylltiad â Jamie Oliver hefyd o ysbrydoliaeth iddyn nhw.'

Ymglymiad y gymuned

Roedd Amy'n awyddus i wneud y gorau o leoliad amaethyddol yr ysgol ac roedd defnyddio cynhwysion lleol cyn belled â phosibl yn bwysig iawn. Mae cynaliadwyedd yn thema allweddol yn yr her coginio. Y tu hwnt i hynny, mae Amy wedi gwneud pwynt o gynnwys rhieni a busnesau megsi tai bwyta lleol, pysgotwyr a chogydd yr ysgol.

Heriau

Cafwyd heriau, wrth gwrs; roedd casglu digon o adnoddau ac offer yn broblem ar y dechrau, ac roedd coginio mewn ystafell ddosbarth gyda hyd at 30 o blant yn golygu bod materion iechyd a diogelwch yn bwysig hefyd. Yn y lle cyntaf, goresgynodd Amy hyn drwy roi rhywfaint o'i hamser CPA i weithio gyda grwpiau bach o'r dosbarth. Mae hyn wedi datblygu bellach yn glwb coginio ar ôl ysgol.

Her arall yn y lle cyntaf oedd bod yr adnoddau i gyd yn Saesneg. Yn ffodus, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi gwneud gwaith gwych dros y flwyddyn ddiwethaf ac wedi ymateb i angen athrawon Cymraeg. Maent wedi dechrau paratoi adnoddau hyfryd, uchel eu hansawdd yn Gymraeg i annog datblygu sgiliau ac i helpu plant i ddeall o ble mae bwyd yn dod mewn ffordd ddiddorol ac ysgogol.

Roedd ymroddiad Amy a'u disgyblion yn golygu iddynt ennill categori ysgolion cynradd Cymru yn 2009 a 2010. Teithiodd y plant i Lundain gyda rhai o'r pethau roeddent wedi'u creu a chawsant gwrdd â Jamie Oliver.

I'w disgyblion, mae cymryd rhan mor llwyddiannus mewn prosiect cyffrous o'r fath wedi datblygu eu sgiliau a chodi eu brwdfrydedd. Maen nhw'n gwybod mwy am o ble mae eu bwyd yn dod, cynaliadwyedd ac am bwysigrwydd defnyddio cynhwysion lleol (e.e. maen nhw wedi gwneud gwin blodau ysgawen, casglu a defnyddio mwyar duon i wneud jam, gwneud selsig cig carw a phorc). Mae gan bob dosbarth randir i dyfu eu bwyd eu hunain, ac mae'r ysgol yn cadw gwenyn ac mae Blwyddyn 6 yn prosesu'r mêl i'w werthu yn yr ysgol; hefyd, mae'r ysgol wedi tyfu perllan ac yn cadw ieir.

I Amy, roedd manteision personol a phroffesiynol o gymryd rhan yn AKCC: 'cadwodd y gystadleuaeth fy addysgu a'm diddordeb yn y pwnc yn ffres! Roedd bob amser thema newydd i'r gystadleuaeth (Brecwast Iach / Pryd bwyd traddodiadol gydag elfen wahanol...). Roedd yn hawdd cynnwys y prosiectau a oedd wedi'u cynllunio'n dda yn ein gwaith cynllunio'.

'Ces i ymdeimlad o gyflawniad ac roedd hi mor werth-chweil gweld cynifer o blant yn cymryd rhan a mwynhau'r dysgu.'

Ers iddi gymryd rhan, mae Amy wedi dod yn aseswr ysgolion iach ac yn aelod o Bwyllgor Addysg Cymru Sefydliad Maeth Prydain. Mae'r ddau beth wedi datblygu ei datblygiad proffesiynol ymhellach a'i golwg ar fwyd, iechyd ac ymarfer corff a'u manteision i blant ac oedolion fel ei gilydd.

Mae Amy yn bwriadu adeiladu ar ei llwyddiant a pharhau i chwilio am ffyrdd i ddatblygu coginio a sgiliau bwyta'n iach sy'n hwyl ac yn arloesol, i annog mwy o blant i fwynhau coginio a defnyddio/paratoi cynhwysion ffres, a gwyliwch, gydweithwyr! Mae hefyd am annog aelodau staff eraill i fwynhau'r prosiectau.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i:
www.nutrition.org.uk
www.nutrition.org.uk/aboutbnf/projects/active-kids-get-cooking
www.activekidsgetcooking.org.uk
http://www.food.gov.uk/wales/
www.foodafactoflife.org.uk

Os ydych yn gwybod am brosiect dylen ni roi sylw iddo, e-bostiwch addysgucymru@gtcw.org.uk

Ymarfer, Adolygu a Datblygu

Y diweddaraf gan Lywodraeth Cymu

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwella Ymarfer - Gwella Deilliannau

Mae Llywodraeth Cymru, ymarferwyr a rhanddeiliaid wedi gweithio ar y cyd i ddatblygu'r Model Adolygu a Datblygu Ymarfer - sef system integredig o safonau proffesiynol, datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a rheoli perfformiad. Ar wahân, gall pob un o'r elfennau hyn esgor ar newid cadarnhaol mewn unigolion neu mewn ysgolion unigol. Fodd bynnag, pan gânt eu cyfuno a'u defnyddio mewn ffordd resymegol a systemataidd, mae'r elfennau hyn yn dod yn ddull nerdthol o wella ymarfer i sbarduno'r agenda gwella ysgolion yng Nghymru.

Isod, rydym yn ymchwilio i Ymarfer, Adolygu a Datblygu a'r hyn mae'n ei olygu i ymarferwyr.

Beth yw Ymarfer, Adolygu a Datblygu?

Mae Ymarfer, Adolygu a Datblygu (YAD) yn disgrifio'r hyn mae pob ymarferwr effeithiol yn ei wneud:

- **Ymarfer: maent yn addysgu, yn arwain ac yn cefnogi dysgu;**
- **Adolygu: maent yn adfyfyrio'n feirniadol ar eu hymarfer i sicrhau bod y camau maent wedi'u cymryd yn bodloni deilliannau arfaethedig ac i nodi blaenoriaethau ar gyfer datblygiad proffesiynol pellach;**
- **Datblygu: maent yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu a dyfnhau eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau datblygu ac i wella eu hymarfer yn gyson.**

Beth mae disgwyl i ymarferwyr ei wneud?

Fel cyfranogwyr yn y broses Ymarfer, Adolygu a Datblygu, disgwylir i'r holl benaethiaid, athrawon a staff cymorth ledled Cymru weithio ar y cyd ag eraill i:

- **adfyfyrio'n rheolaidd ar eu hymarfer gan ddefnyddio disgrifiadau o ymarfer a gytunir yn genedlaethol (safonau);**
- **defnyddio'r adfyfyrion hyn i nodi meysydd i'w datblygu ymhellach a chymryd rhan mewn profiadau datblygiad proffesiynol sy'n berthnasol i'r meysydd a nodwyd ac sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth o arfer gorau (DPP); a**
- **bob blwyddyn o leiaf, cofnodi tystiolaeth o'u rhan yn y broses hon yn ffurfiol a threfnu ei bod ar gael (rheoli perfformiad).**

Ymarfer, Adolygu a Datblygu yw'r cysylltiad rhwng humanwerthusiad yr ymarferwr o'u hymarfer a'r broses ysgol gyfan o hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Mae tystiolaeth yn dangos mai ymarferwyr effeithiol yw'r ffactor pwysicaf un wrth godi cyflawniad mewn ysgolion; felly, mae system genedlaethol gadarn, a gaiff ei gweithredu'n gyson ar lefel ysgolion, sy'n hybu ac yn cynnal addysgu a dysgu effetihiol yn nodwedd hanfodol o'r agenda gwella.

Pa bolisîau fydd yn newid?

Safonau Proffesiynol

Mae'r safonau proffesiynol wedi'u diweddaru a'u mireinio. Y rhain yw:

- **Safonau Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU);**
- **Safonau Athrawon wrth eu Gwaith (PTS) - daeth y rhain i rym o 1 Medi 2011 ymlaen, yn disodli'r Safonau Diwedd Sefydlu;**
- **Safonau Arweinyddiaeth - daeth y rhain i rym o 1 Medi 2011 ymlaen, yn disodli'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Penaethiaid yng Nghymru.**

Rheoli Perfformiad

Caeodd yr ymgynghoriad ar ddiwygiadau i reoli perfformiad ar gyfer athrawon a phenaethiad ar 30 Medi. Bydd y rheoliadau newydd yn dod i rym o 1 Ionawr 2012 ymlaen. Bydd y rheoliadau'n cynnwys trefniadau trosiannol i athrawon a phenaethiaid ddechrau'r system newydd ar unrhyw adeg yn ystod 2012.

Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar (DPC)

O fis Medi 2011 ymlaen, mae cyllid ar gyfer Sefydlu a'r flwyddyn gyntaf o DPC wedi'i gysylltu â'r blaenoriaethau cenedlaethol canlynol:

- **llythrennedd;**
- **rhifedd; a**
- **lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad.**

a'r blaenoriaethau datblygiadol a nodir gan yr adolygiad o safonau proffesiynol, rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol:

- **anghenion dysgu ychwanegol (ADY);**
- **rheoli ymddygiad; ac**
- **ymarfer adfyfyriol.**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch newidiadau yn y rhaglen sefydlu yn nhymor y gwanwyn a bydd rheoliadau sefydlu newydd yn dod i rym ym mis Medi 2012. Bydd y rheoliadau'n ailffocysu'r meini prawf sydd ynghlwm wrth gwblhau'r flwyddyn sefydlu'n llwyddiannus ar ansawdd y profiad yn hytrach na faint o amser mae'r ANG wedi'i gwblhau.

Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgiadol

O fis Medi 2012, rhoddir cyfle i Athrawon Newydd Gymhwyso sy'n ymgymryd â'u Sefydlu i gwblhau Gradd Meister mewn Ymarfer Addysgiadol (MEP).

Caiff yr MEP ei seilio ar ymarfer a bydd yn gofyn i athrawon gymryd rhan mewn ymchwil gweithredol yn hytrach na bod y gymhwyster damcaniaethol ac academaidd a addysgir. Mae'r cymhwyster yn llai pwysig na'r profiadau y bydd yr athro yn ymgymryd â hwy drwy gydol y rhaglen i wella eu "meistrolaeth" ar addysgu a dysgu. Bydd y rhain yn cynnwys gweithio yn rhan o Gymuned Ddysgu Broffesiynol (PLC) a chyfnodau hyfforddi a mentora gan diwtor Gradd Meistr penodedig.

Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno proses newydd ar gyfer ennill CPCP. Dechreuodd cynllun peilot o'r trefniadau diwygiedig ym mis Mawrth 2011 a bydd yn rhedeg tan fis Ionawr 2012. Caiff y cynllun peilot ei werthuso yn barhaol a chaiff y gwersi a ddysgir eu cymhwyso a'u cynnwys yn y rhaglen genedlaethol a gaiff ei chyflwyno ym mis Ionawr 2012.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynghylch Ymarfer, Adolygu a Datblygu, gallwch e-bostio blwch negeseuon YAD yn: **practicereviewanddevelopment@wales.gsi.gov.uk**

Bydd y newyddion diweddaraf ar gael yn gyson ar wefan Llywodraeth Cymru ac yng nghylchlythyrau Dysg a Chyn 11 oed. Os nad ydych yn cael y cylchlythyrau hyn ar hyn o bryd, a hoffech iddynt gael eu hanfon atoch, e-bostiwch Rhys Davies yn: **rhys.davies4@wales.gsi.gov.uk**



Dechrau'r berthynas – CyngACC ac ANG

Liz Brimble, Rheolwr Cofrestru a Chymwysterau

Bob blwyddyn mae CyngACC yn croesawu ychydig dros 1,500 o athrawon newydd gymhwyso i'r Gofrestr. Fodd bynnag, mae gofyn i dîm cofrestru CyngACC gydlynu nifer o ddigwyddiadau a therfynau amser i gyrraedd y pwynt lle gellir cofrestru'r myfyrwyr blwyddyn olaf hyn.

Mae'r tîm yn ymwybodol bod myfyrwyr yn derbyn llawer o wybodaeth o lu o ffynonellau ond bod mantais iddynt mai ni yw'r pwynt cyswllt cyffredinol felly gweithiwn yn galed i wneud y cam pontio rhwng bod yn fyfyriwr i fod yn ANG mor ddidrafferth â phosibl iddynt.

Ym mis Rhagfyr, mae pob sefydliad hyfforddi athrawon yng Nghymru yn darparu manylion i ni o bob myfyriwr y mae disgwyl iddo ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC) ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Gyda'r data hwn, rydym yn creu cofnod unigryw ar gyfer pob myfyriwr ac felly dyna ddechrau ar ein perthynas.

Mae llawer o dasgau i ymgymryd â nhw cyn y gellir dyfarnu SAC a chofrestru'r ANG sy'n dymuno gweithio yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **cyhoeddi rhif cyfeirnod athro unigryw i bob athro dan hyfforddiant;**
- **cael cyfeiriad cyswllt diogel ar gyfer pob myfyriwr a'i ddiweddaru;**
- **casglu canlyniadau cyrsiau TAR a BEd gan bob darparwr hyfforddiant ym mis Gorffennaf a chadarnhau dyfarnu SAC i bob myfyriwr llwyddiannus erbyn 1af Awst;**
- **ar ôl dyfarnu SAC, cwblhau'r broses gofrestru ar gyfer yr ANG hynny y mae eu ceisiadau i gofrestru yn dal yn yr arfaeth.**

Fodd bynnag, mae'r ymweliadau a wnaiff y tîm cofrestru â phob darparwr hyfforddi athrawon yn hollbwysig i'r broses (gwneir hyn ddwy neu dair gwaith weithiau), i roi cyflwyniadau i bob myfyriwr blwyddyn olaf. Yna mae'r tîm yn treulio amser gyda'r myfyrwyr er mwyn eu tywys drwy'r broses a'r gofynion cofrestru. O ganlyniad, rydym yn prosesu oddeutu 1,250 o geisiadau myfyrwyr i gofrestru yn ystod mis Mai yn dilyn yr ymweliadau.

Mae'r cyfarfodydd wyneb i wyneb hyn yn hollbwysig ar gyfer adeiladu ein perthynas â myfyrwyr. Rydym nid yn unig yn sôn am ein gwaith fel eu corff proffesiynol ond hefyd rydym yn helpu gyda llawer o ymholiadau megis sut y caiff SAC ei ddyfarnu, materion yn ymwneud â chofrestru a chyfrifoldebau ANG mewn perthynas â'r cyfnod sefydlu statudol. Mae amser hefyd i drafod yn anffurfiol a rhoi cyngor unigol i'r myfyrwyr sydd ag anawsterau personol o bosibl, fel cofnod troseddol blaenorol, oedi wrth gwblhau eu lleoliadau neu os ydynt yn cymryd hoe cyn dechrau yn y byd gwaith.

I grynhoi, yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, teithiodd y tîm cofrestru fwy na 2,200 o filltiroedd gan roi 23 o gyflwyniadau i fyfyrwyr dros gyfnod o 16 diwrnod yn lleoliadau'r darparwyr hyfforddi athrawon. Yn ogystal, cyhoeddwyd mwy na 1,600 o dystysgrifau SAC ar 1af Awst a phroseswyd mwy na 1,400 o geisiadau i gofrestru gan ANG (gan gynnwys rhai a oedd yn trosglwyddo o Loegr) rhwng mis Mai a mis Medi.

Gan adeiladu ein perthynas ag ANG yn y modd hwn, gobeithio ei bod yn rhoi cyfle iddynt werthfawrogi gwerth eu cysylltiad proffesiynol â ChyngACC a'r farn bod addysgu yn "broffesiwn".

Diffinio'r dyfodol ar gyfer proffesiynoldeb

Gary Brace
Prif Weithredwr, CyngACC

Mae ymgynghoriad ar swyddogaethau CyngACC yn y dyfodol ar fin cael ei lansio gan Lywodraeth Cymru. Beth yw cefndir hyn oll? Rydym yn ateb eich cwestiynau ar y tudalennau hyn.

Pam cynnal ymgynghoriad?

Aeth y Blaid Lafur i Etholiad Cyffredinol Cymru 2011 gyda chyfeiriad yn ei maniffesto at 'adolygu CyngACC'. Sbardunwyd y penderfyniad i'w adolygu yn sgîl penderfyniad Michael Gove, Ysgrifennydd Addysg Lloegr, i ddiddymu CyngAC Lloegr.

Beth fydd yn digwydd nawr?

Bydd Llywodraeth Cymru'n lansio ymgynghoriad yn y flwyddyn newydd, 2012. Rhagwelwn y bydd yr ymgynghoriad yn gofyn cwestiynau cyffredinol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd am wybod 'sut' a 'pham' dylid rheoleiddio dan arweiniad y proffesiwn, 'pwy' gellid ei reoleiddio (er enghraifft, athrawon ysgol fel ar hyn o bryd? Cynorthwywyr addysgu? Athrawon AB?) a chyfrifoldebau posibl corff proffesiynol.

Bydd unrhyw newidiadau i GyngACC yn dilyn yr ymgynghoriad yn cael eu gwneud yn ystod Cynulliad 2012-13. Tan hynny, ni fydd unrhyw newidiadau i swyddogaethau na chyfrifoldebau CyngACC.

Pam fod rheoleiddio dan arweiniad y proffesiwn yn bwysig?

Mae gan bron pob proffesiwn gyrff annibynnol sy'n gosod eu safonau o ran ymddygiad ac ymarfer ac sy'n rheoleiddio mynediad i'r proffesiwn e.e. mae gan feddygon y Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC), mae gan nyrsys y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB). Mae gan gyfreithwyr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr. Mae'r ffaith bod gan addysgu ei gorff proffesiynol ei hun yn un o'r arwyddion ei fod yn broffesiwn. Mae hefyd yn arwydd o du'r llywodraeth ei bod yn cydnabod ac yn parchu addysgu fel proffesiwn sy'n gallu gweithredu er budd y cyhoedd.

Mae gan rai cyrff, fel CyngACC, swyddogaeth gynghori hefyd. Mae CyngACC yn gweld materion 'drwy lens addysgu' ac yn siarad yn annibynnol ac yn awdurdodol ar ran y proffesiwn addysgu â llywodraeth ac eraill. Mae CyngACC yn cynghori ar faterion addysgu ac, ymysg pethau eraill, wedi cael dylanwad sylweddol ar bolisi'r llywodraeth ar recriwtio a chadw athrawon, datblygiad proffesiynol cychwynnol a pharhaus ac ar faterion eraill fel arolygu. Nid yw CyngACC yn rhoi cyngor am faterion cyflogau a thelerau ac amodau am mai dyna yw rôl yr undebau athrawon.

Dros beth y dylai athrawon ddadlau yn yr ymgynghoriad?

1. Pwy ddylai gael ei gofrestru gyda ChyngACC?

Ni fyddai neb yn anghytuno bod y 'gweithlu' addysgu'n sylweddol wahanol i'r hyn yr oedd pan sefydlwyd y Cyngor yn 2000. I bob dau athro cofrestredig cymwys mewn ysgolion erbyn hyn mae un aelod o staff i gefnogi addysgu. Mae CyngACC o'r farn yn gryf y dylai pob un sy'n gysylltiedig â'r broses addysgu ac sy'n cael cysylltiad

(parhad)

uniongyrchol â disgyblion e.e. CALU, cynorthwywyr addysgu, gael ei gofrestru gyda ChyngACC.

Yn y cyfnod uwchradd, mae athrawon AB yn addysgu mewn ysgolion ac mae rhai disgyblion ysgol rhwng 14-19 oed yn mynychu colegau AB i ddilyn rhai cyrsiau. Mae CyngACC hefyd o'r farn y dylai athrawon AB gael eu cofrestru gyda ChyngACC am resymau cydraddoldeb a statws proffesiynol.

Bydd ymestyn cofrestru a'r cyfan sy'n mynd law yn llaw â chorff rheoleiddio proffesiynol yn helpu proffesiynoldeb y grwpiau hyn a, thrwy wneud hynny, yn hyrwyddo statws athrawon ac addysgu ymhellach.

Wrth gwrs, byddai angen llunio trefniadau cofrestru ar wahân i gydnabod y gwahanol gymwysterau a lefelau hyfforddiant a gaiff athrawon AB a staff cynnal mewn ysgolion. Byddai CyngACC yn disgwyl i'r cyfrifoldebau hyn gael eu trosglwyddo dros amser.

Mae papurau safbwynt manwl ar athrawon AB a staff cynnal ar gael yn **www.gtcw.org.uk**

2. Pa gyfrifoldebau dylai corff proffesiynol feddu arnynt?

Ar hyn o bryd mae gan GyngACC swyddogaethau rheoleiddio, cynghori a rhai swyddogaethau gweithredol ond gellid rhoi cyfrifoldebau eraill iddo.

Byddai llywodraeth yn ymddiried mewn proffesiwn aeddfed i weithredu fel ceidwad safonau proffesiynol. Gallai CyngACC achredu cyrsiau hyfforddi athrawon fel rhai sy'n briodol yn broffesiynol. Gallai sicrhau ansawdd DPP. Gallai fod â chyfrifoldebau polisi mewn perthynas â datblygu athrawon yn hytrach na swyddogaethau gweinyddol yn unig.

Mae gan gyrff proffesiynau eraill a'r Cynghorau Addysgu yn yr Alban ac Iwerddon lawer o'r cyfrifoldebau uchod.

Oni fyddai'n rhaid i GyngACC newid?

Rydym yn cydnabod y byddai'n rhaid i gyfansoddiad a ffurf y Cyngor newid e.e. drwy gynnwys staff AB a staff cynnal petai'r ymgynghoriad yn cefnogi'r uchod a phetai'r llywodraeth yn dewis gweithredu'r newidiadau.

Fodd bynnag, mae'n gwneud synnwyr yn ariannol ac yn drefniadaethol i swyddogaethau a grwpiau newydd gael eu hychwanegu at systemau presennol o fewn CyngACC – fel y Gofrestr Athrawon Cymwys lwyddiannus – yn hytrach na chreu cofrestr neu sefydliad newydd o'r dechrau.

Nid ydym o'r farn y dylai ymestyn cyfrifoldebau a swyddogaethau olygu newid enw serch hynny. Rydym wedi clywed rhai'n dadlau y dylai CyngACC ddod yn 'Gyngor Addysg Cyffredinol'. Byddai hyn yn golygu sefydliad cwbl wahanol yn cynghori ar bolisi addysg er mai corff sy'n cynrychioli'r proffesiwn addysgu yw CyngACC. Rai blynyddoedd nôl, symudodd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol o gofrestru deintyddion yn unig i gofrestru pob gweithiwr deintyddol heb newid ei enw. Mae enghreifftiau tebyg o gyrff proffesiynol sy'n meddu ar gyfrifoldebau ehangach, e.g. Cyngor Gofal Cymru a'r Cyngor Peirianneg.

Beth yw barn yr undebau?

Cyhoeddwyd datganiad ar y cyd yn yr haf 2010 gan yr NUT, ATL, NAHT ac ASCL yn cefnogi hunanreoleiddio yng Nghymru ac yn annog y llywodraeth i beidio â dilyn llwybr Lloegr. Mae Llais hefyd yn cefnogi CyngACC.

Bu'r holl undebau'n ymgyrchu ar y cyd drwy ddiwedd y 1980au a'r 1990au am gorff proffesiynol a arweiniodd at Ddeddf 1998 a sefydlodd GyngACC.

Beth sy'n digwydd yn Lloegr?

Gyda ChyngACLl yn cael ei ddiddymu ym mis Mawrth 2012, bydd proffesiwn addysgu Lloegr yn colli'r rôl o osod a pherchen ar safonau proffesiynol ac etheg. Yn hytrach, bydd yr agweddau diffiniol hyn o broffesiynoldeb o dan reolaeth uniongyrchol y llywodraeth.

Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr yn gwneud penderfyniadau ar yr achosion mwyaf difrifol yn unig o gamymddygiad proffesiynol gan athrawon a hynny dim ond os yw'r achosion yn cael eu cyfeirio gan gyflogwyr. Bydd hyn yn rhoi arweinwyr ysgolion mewn sefyllfa annheg.

Bydd cyflogwyr unigol yn Lloegr yn gwneud eu penderfyniadau lleol eu hunain am gymhwysedd athro/athrawes heb allu troi at feincnod cyffredinol. Yn hyn mae'r posibilrwydd o golli tegwch, tryloywder a chysondeb i athrawon. Nid yw ychwaith yn sicrhau y bydd gan ddisgyblion a'u rhieni hawl gyffredinol i athrawon o gefndir ac arbenigedd cadarn.

Lloegr fydd yr unig genedl yn y DU heb gorff proffesiynol ar gyfer addysgu.

Beth dylwn ei wneud?

Os ydych yn credu mewn datblygu proffesiynoldeb athrawon yng Nghymru, rydym yn eich annog yn gryf i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar sail y dadleuon uchod. Mae'n debygol o fod yn ymgynghoriad ar y we a byddwn yn rhoi dolenni iddo ar ein gwefan.

Cyn 2000, nid oedd gan athrawon yng Nghymru gorff proffesiynol. Fe'i sefydlwyd gan Lywodraeth Lafur yn dilyn ymgynghoriad ym 1997 pan gafwyd cefnogaeth i Gynghorau unigol gael eu sefydlu ar gyfer Cymru a Lloegr.

Mae gan yr Alban Gyngor Addysgu ers 1966. Sefydlodd Gogledd Iwerddon Gyngor yn 2002 ac Iwerddon yn 2004. Mae cyrff proffesiynol ar gyfer addysgu'n cael eu sefydlu o amgylch y byd.

Newyddion

Tri cham hawdd...

Mewn ymateb i flaenoriaethau newydd Llywodraeth Cymru, mae llythrennedd yn un o'r sgiliau craidd i ganolbwyntio arnynt.

Dyna pam mae'n bwysicach nag erioed o'r blaen i sicrhau bod sgiliau darllen ac ysgrifennu disgyblion yn cael eu herio a'u datblygu ar draws y cwricwlwm cyfan.

O'r Cyfnod Sylfaen i gyfnod allweddol 5, mae'r strategaeth mae Estyn newydd ei chyhoeddi, strategaeth ac arweiniad ar gyfer arolygu llythrennedd ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 18 oed yn nodi'n union sut dylai ysgolion fod yn datblygu sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm.

Gan amlygu arfer da, technegau i ateb anghenion pob dysgwr, arweinyddiaeth effeithiol a rheoli llythrennedd a llawer mwy, mae'r strategaeth yn bwysig i bob athro, cydlynydd llythrennedd ac uwch reolwyr. Mae Estyn yn annog yn gryf y dylai ysgolion lwytho a darllen y strategaeth a'r arweiniad yn: **http://www.estyn.gov.uk/english/Inspectors/overview/**

Am gyngor ymarferol ac astudiaethau achos ynghylch sut mae rhai ysgolion unigol yng Nghymru wedi codi safonau llythrennedd, ewch i adran arfer gorau gwefan Estyn.

Cyfarfodydd â phenaethiaid

Mae Angela Jardine, Cadeirydd CyngACC, a Gary Brace, y Prif Weithredwr, yn parhau ag ymrwymiad CyngACC tuag at ddatblygu cysylltiadau cryf a deialog gyda phenaethiaid ledled Cymru. Ar ôl cyfres o drafodaethau llwyddiannus ynghylch arweinyddiaeth yn gynharach eleni, thema'r trafodaethau cyfredol yw rheoleiddio'r gweithlu ysgol ehangach ac Addysg Bellach.

Y Diweddaraf gan HMRC

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi lansio ymgyrch newydd, a allai fod o ddiddordeb i diwtoriaid preifat a/neu hyfforddwyr. Darllenwch ragor yma: **www.hmrc.gov.uk**

Ymweliadau â Cholegau

Enw'r Sefydliad	Cwrs	Dyddiad(au)'r Ymweliadau
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	TAR Uwchradd a BA Uwchradd (Drama)	Dydd Llun 23ain Ebrill 2012
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	TAR Cynradd	Dydd Gwener 27ain Ebrill 2012
Prifysgol Glyndŵr	BA (Anrh) Cynradd	Dydd Mercher 2il Mai 2012
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	TAR Uwchradd	Dydd Gwener 8fed Mehefin 2012
Prifysgol Fetropolitan Abertawe	TAR Cynradd	Dydd Iau 21ain Mehefin 2012
Prifysgol Bangor	TAR Cynradd, BA a BSc	Dydd Mercher 15fed Chwefror 2012 (cyflwyniad a chofrestru) dydd Iau 16eg Chwefror 2012 (bore'n unig - cofrestru)
Prifysgol Bangor	TAR Uwchradd	Dydd Llun 18fed Mehefin 2012 (cyflwyniad a chofrestru) Dydd Mawrth 19eg Mehefin 2012 (bore'n unig - cofrestru)
Prifysgol Cymru, Casnewydd	Pob Myfyriwr Blwyddyn Olaf	Dydd Mercher 6ed Mehefin 2012
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant	BA Cynradd	Dydd Gwener 4ydd Mai 2012
Prifysgol Aberystwyth	TAR Uwchradd	Dydd Llun 25ain Mehefin 2012 (cyflwyniad a chofrestru) Dydd Mawrth 26ain Mehefin 2012 (bore'n unig - cofrestru)

Y safon BmP wedi'i chadw

Yn dilyn adolygiad, mae'n bleser gan GyngACC gyhoeddi ein bod wedi cadw ein statws Buddsoddwyr mewn Pobl.

INVESTOR IN PEOPLE

Eich cofrestriad

Gallwch weld a diweddaru eich cofnod ar y Gofrestr Athrawon Cymwys ar-lein yn **www.gtcw.org.uk.** Mae gan eich cyflogwr neu'ch darpar gyflogwr yr hawl i weld rhannau o'ch cofnod, felly mae'n bwysig i chi ei gadw'n gyfoes.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'ch cofrestriad CyngACC, cysylltwch â'r tîm Cofrestru ar 029 2046 0099 neu drwy e-bostio: registration@gtcw.org.uk

Cyllid Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar

Atgoffir athrawon yn nhair blynedd cyntaf eu gyrfaoedd bod cyllid yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer eu Sefydlu a'u Datblygiad Proffesiynol cynnar. Mae manylion pellach ar gael gan y Tîm Cyllid Sefydlu a DPP ar **029 2046 0099, sefydluadpc@gtcw.org.uk** neu yn **www.gtcw.org.uk**

Dilynwch ni ar twitter

Mae nifer yr athrawon a phobl eraill â diddordeb mewn clywed am weithgareddau CyngACC yn cynyddu bob dydd. Dilynwch ni yn: **@gtcwales**

Cysylltu:

Rydym wedi symud: Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
9fed Llawr
Eastgate House
35-43 Ffordd Casnewydd
Caerdydd
CF24 0AB

Ffôn: 029 2046 0099
Ffacs: 029 2047 5850

E-bost: gwybodaeth@gtcw.org.uk
Gwefan: www.gtcw.org.uk